



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Penderfyniadau Polisi a'r Gymraeg: Ymdrech Gydwbybodol?



Cynnwys

Rhagair	1
1 Cefndir a chyd-destun	2
Methodoleg	2
2 Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion	4
3 Safonau Gwneud Penderfyniad Polisi	6
Gofynion y safonau	6
Sut i gydymffurfio	6
Hunanasesiad sefydliadau	7
Asesiad y Comisiynydd	8
Arferion da	10
Meysydd i'w gwella	15
Casgliad	16
4 Safonau Dogfen Ymgynghori	17
Gofynion y safonau	17
Sut i gydymffurfio	17
Hunan-asesiad sefydliadau	18
Asesiad y Comisiynydd	19
Arferion da	20
Meysydd i'w gwella	21
Casgliad	22
5 Safonau Ymchwil	23
Gofynion y safonau	23
Sut i gydymffurfio	23
Hunan-asesiad sefydliadau	23
Asesiad y Comisiynydd	24
Arferion Da	25
Casgliad	26
Atodiad 1: Sefydliadau wnaeth ymateb i'r holiadur	27
Atodiad 2: Adnoddau defnyddiol	30
Atodiad 3: Safonau llunio polisi	31
Safonau gwneud penderfyniadau polisi	31
Safonau dogfen ymgynghori	31
Safonau ymchwil	31

Rhagair

Rwy'n hynod falch o allu cyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi canfyddiadau ein llinell ymholi allweddol cyntaf – a hynny mewn perthynas â'r safonau llunio polisi.

Mae'r safonau llunio polisi yn gonglfaen i'n fframwaith reoleiddio, ac mae fy nisgwyliadau o sefydliadau sy'n gorfod cydymffurfio â'r safonau hyn yn glir - dylid mynd ati i wneud ymdrech gydwytbodol i ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.


Wedi'u gwneud yn dda, mae asesiadau effaith yn fwy na ffordd i ddangos cydymffurfiaeth. Mae'n ffordd o sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei chynnwys fel pwnc prif ffrwd wrth i sefydliadau benderfynu sut y byddant yn gweithredu eu swyddogaethau cyhoeddus.

Rwy'n grediniol fod rheoleiddio yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei wneud mewn partneriaeth â'r rhai sy'n cael eu rheoleiddio. Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn adeiladu ar ein hymrwymiad i ddull rhagweithiol o gyd-reoleiddio, a chyhoeddi deilliannau rheoleiddio clir.

Nid bwriad yr adroddiad hwn yw canfod methiannau, ond yn hytrach i helpu sefydliadau i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac i annog sefydliadau i roi cynnig ar ddulliau newydd.

Mae ein gwaith yn dangos bod enghreifftiau da o agweddau o'r broses o gynnal asesiad effaith ar y Gymraeg o fewn sefydliadau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae gwaith pellach i'w wneud i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofynion os rydym am weld sefyllfa ble bo sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

Rwy'n falch o'r gwaith caled a'r ymroddiad a ddangoswyd gan bawb a gymerodd ran yn y llinell ymholi hon, ac rwy'n edrych ymlaen at weld cynnydd wrth i ni weithio gyda'n gilydd i gryfhau'r broses o lunio polisi er budd y Gymraeg a'i siaradwyr.



Efa Gruffudd Jones

Comisiynydd y Gymraeg

1 Cefndir a chyd-destun

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno prif ganfyddiadau ein llinell ymholi allweddol cyntaf – llinell ymholi oedd yn canolbwyntio ar y safonau llunio polisi. Gellir gweld y safonau yn llawn [yma](#).
- 1.2 Mae cynnal llinellau ymholi allweddol fel rhan o'n gwaith rheoleiddio yn ategu ein gwaith monitro rheolaidd, drwy ddarparu ffocws a dadansoddiadau manylach sy'n llywio ac yn cyfoethogi'r trosolwg ehangach a gyflwynir yn ein [hadroddiad blynyddol](#) ar gydymffurfiaeth.
- 1.3 Pwrpas cynnal y llinell ymholi penodol hon yw ein galluogi i asesu a chael dealltwriaeth well o'r trefniadau sydd gan sefydliadau wrth iddynt ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.
- 1.4 Mae'r safonau llunio polisi yn bwysig er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, a bod unrhyw effeithiau posib ar yr iaith yn cael eu hadnabod. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif, a hefyd sut i sicrhau effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg. Mae'n hanfodol bod gan sefydliadau dull effeithiol o ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg sy'n cwmpasu ystyriaethau cyfreithiol, anghenion siaradwyr Cymraeg, strategaethau cenedlaethol a lleol, a meysydd polisi penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- 1.5 Hefyd yn rhan o'r safonau hyn mae'r gofyniad i unrhyw ddogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ystyried a cheisio barn ar effeithiau posib y penderfyniad ar y Gymraeg. Pwrpas y safonau hyn yw sicrhau bod y rhai sy'n ymateb i'r ddogfen ymgynghori yn cael y cyfle i wneud sylwadau gwybodus ar effaith y penderfyniad ar y Gymraeg.
- 1.6 Y categori olaf o safonau yw'r rheiny sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliad sicrhau bod unrhyw waith ymchwil y caiff ei gomisiynu, neu ei gynnal i gynorthwyo penderfyniad polisi, yn ystyried effeithiau'r penderfyniad hwnnw ar y Gymraeg.
- 1.7 Ymdrinnir â'r safonau, fel yr amlinellwyd uchod, yn eu tro yn adrannau 3, 4 a 5 yr adroddiad hwn.

Methodoleg

- 1.8 Wrth ymgymryd â'r llinell ymholi allweddol hon, dilynwyd y fethodoleg ganlynol:
 1. **Creu Holiadur:** Cafodd holiadur ei greu i gasglu gwybodaeth gan sefydliadau sy'n dod o dan ofynion safonau llunio polisi. Roedd y cwestiynau wedi'u strwythuro i archwilio trefniadau cydymffurfio'r sefydliadau â'r safonau hyn.
 2. **Dosbarthu'r Holiadur:** Anfonwyd yr holiadur at yr holl sefydliadau perthnasol, a derbyniwyd ymatebion gan 89 ohonynt, gan roi cyfradd ymateb sylweddol (71%).
 3. **Cynnwys yr Holiadur:** Roedd yr holiadur yn cynnwys 15 cwestiwn wedi'u rhannu ar draws tair adran, pob un yn canolbwyntio ar grŵp penodol o safonau llunio polisi:
 - **Safonau Gwneud Penderfyniad Polisi:** Cwestiynau am y trefniadau ar gyfer ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi.

- **Safonau Dogfen Ymgynghori:** Cwestiynau am y trefniadau o ystyried a cheisio barn ar effeithiau posib penderfyniadau polisi ar y Gymraeg mewn dogfen ymgynghori.
 - **Safonau Ymchwil:** Cwestiynau am ystyriaethau ymchwil sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau polisi.
4. **Hunan Aseiad:** Roedd cwestiwn ar ddiwedd pob adran yn gofyn i'r sefydliadau wneud hunan aseiad o'u lefel sicrwydd cydymffurfiaeth, gan ddefnyddio'r diffiniadau canlynol:

Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	Mae'r sefydliad yn cydymffurfio â'r holl ofynion bob amser, dan bob amgylchiadau, heblaw am eithriadau prin
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	Mae'r sefydliad yn cydymffurfio'n llawn fel arfer, ond mae diffyg cydymffurfiaeth ar rai adegau neu gyda rhai gofynion
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	Mae'r sefydliad yn cydymffurfio ar rai adegau neu gyda rhai o'r gofynion, ond ddim yn cydymffurfio'n llawn ac yn gyson
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	Nid yw'r sefydliad yn cydymffurfio â'r gofynion o gwbl, neu mae'n cydymffurfio ar adegau prin neu gydag ychydig o agweddau'n unig
Gofynion ddim yn berthnasol	Nid yw'r gofynion wedi eu gosod ar y sefydliad, neu nid yw'r sefydliad yn cyflawni'r gweithgaredd

5. **Dadansoddi Ymatebion:** Wrth ddadansoddi'r ymatebion, fe wnaethom ni roi ein hasesiad ar lefel sicrwydd cydymffurfiaeth ar gyfer pob cwestiwn, yn amrywio o 'uchel' i 'dim'. Roedd rhai o'r ymatebion yn cynnwys mwy o wybodaeth na'i gilydd, gan wneud yn anodd mewn rhai amgylchiadau i ddod i gasgliadau pendant ar y lefel sicrwydd cydymffurfiaeth.

2 Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion

- 2.1 Mae'n arferiad gan rai sefydliadau i roi datganiadau am y Gymraeg yn yr asesiad effaith, heb nodi unrhyw effeithiau penodol. Mae'r safonau yn datgan yn glir bod angen ystyried **effeithiau posib** ar y Gymraeg, ac felly nid yw cynnwys cyfres o ddatganiadau ffeithiol am y Gymraeg mewn asesiad effaith yn ddigonol i gydymffurfio. Mae hwn yn faes craidd sy'n gofyn am sylw penodol.

Argymhelliad 1: Mae angen mwy na thrafodaeth arwynebol a datganiadau ffeithiol am y Gymraeg o fewn asesiadau effaith. Dylai sefydliadau gynnwys digon o wybodaeth er mwyn dangos bod ymdrech gydwybodol wedi ei wneud i ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.

- 2.2 Mae cyd-destun yn bwysig wrth ystyried y term 'ymdrech gydwybodol'.¹ Bydd rhai mathau o benderfyniadau polisi yn gofyn am fwy o ystyriaeth er mwyn cyflawni 'ymdrech gydwybodol', er enghraifft, os yw'r polisi yn ymwneud ag ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Enghraifft arall o gyd-destun ble disgwylir gweld mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg er mwyn cyflawni ymdrech gydwybodol yw'r maes ad-drefnu addysg.

Argymhelliad 2: Dylai sefydliadau ystyried cyd-destun y polisi wrth benderfynu ar lefel yr ystyriaeth i'r Gymraeg.

- 2.3 Mynegodd lleiafrif bychan o sefydliadau nad yw'r safonau hyn yn berthnasol i'w gwaith gan nad ydynt yn llunio polisiâu cyhoeddus sydd ag unrhyw effaith ar y Gymraeg. Mae'r diffiniad o benderfyniad polisi o dan y safonau hyn yn eang, ac o ganlyniad, rydym yn annog sefydliadau i ail ystyried statws eu penderfyniadau cyn cymryd yn ganiataol nad oes angen ystyried yr effaith ar y Gymraeg.

- 2.4 Ar y cyfan, mae llawer o sefydliadau wedi rhoi trefniadau gweinyddol mewn lle i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau. Maent wedi creu templedi a chanllawiau i'w gwneud hi'n haws cydymffurfio. Ond, fel y nodwyd yn ein hadroddiad diweddar, [Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd](#), nid yw sefydliadau bob amser yn defnyddio neu'n dilyn y gweithdrefnau hyn wrth wneud penderfyniadau polisi.

Argymhelliad 3: Dylai sefydliadau gau'r bwlch rhwng y trefniadau sydd mewn lle a'u gweithrediad yn ymarferol.

Mae angen sicrhau bod unrhyw ddogfennau ymgynghori a gyhoeddir yn ystyried, ac yn ceisio barn am y Gymraeg.

Dylai sefydliadau ystyried addasu eu trefniadau fel bod asesiad o effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg yn cael ei gyflawni ar wahân i asesiad effaith cydraddoldeb. Mae hyn er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfundrefn, ac er mwyn sicrhau bod ymdrech gydwybodol yn cael ei wneud i ystyried effeithiau ar y Gymraeg. Yn ddefnyddol, byddai hyn yn digwydd ar ffurf templed asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg.

¹ Cafodd y term yma ei dderbyn gan Dribiwnlys y Gymraeg yn achos Cyngor Castell-nedd Port Talbot, ac mae'n golygu bod angen mwy na thrafodaeth arwynebol a datganiadau ffeithiol am y Gymraeg er mwyn cydymffurfio gyda'r safonau. Gweler [paragraff 3.5](#) yr adroddiad hwn.

- 2.5 Yn yr un modd, mae gan lawer o sefydliadau ganllawiau defnyddiol sy'n cynnwys cwestiynau 'ceisio barn' perthnasol i gydymffurfio â'r safonau dogfen ymgynghori. Hynny yw, cwestiynau sy'n gofyn yn benodol am effeithiau posib y penderfyniad polisi ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, wrth edrych ar rai o'r enghreifftiau o ddogfennau ymgynghori a ddarparwyd, nid yw'r cwestiynau 'ceisio barn' bob amser yn ymddangos.
- 2.6 Patrwm ddaeth i'r amlwg wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r holiadur oedd bod sefydliadau o'r farn bod eu lefel sicrwydd cydymffurfio yn uwch nag ydyw mewn gwirionedd. Mae hyn yn cefnogi'r safbwynt bod trefniadau mewn lle gan sefydliadau, ond nad yw'r trefniadau hynny yn cael eu dilyn yn llawn yn ymarferol.
- 2.7 Mae'r trefniadau sydd mewn lle yno i bwrpas, sef i gynorthwyo staff i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (ynghyd â gofynion statudol eraill). Dylid hyrwyddo'r trefniadau hyn, a sicrhau bod staff yn cael cefnogaeth ac anogaeth i'w dilyn.
- 2.8 Hoffem dynnu sylw at y dudalen ganlynol ar [ein gwefan](#), sy'n cynnwys cyfres o ymatebion i gwestiynau cyffredin ynghylch y safonau llunio polisi. Mae'r dudalen hon hefyd yn cynnwys dolennau at restr o ffactorau i'w hystyried wrth asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, ac astudiaeth achos sy'n ymwneud â'r safonau dogfen ymgynghori. Yn olaf, mae'r dudalen yn cynnwys dolenni at ddyfarniadau Tribiwnlys diweddar ar y safonau llunio polisi; dolenni at seminarau sydd wedi eu cynnal ar y safonau llunio polisi; a dolennau at ein dogfen gyngor arferion da.
- 2.9 Mae'r wybodaeth yma wedi ei gasglu er mwyn helpu sefydliadau i ddeall gofynion y safonau llunio polisi, ac rydym yn annog sefydliadau i wneud defnydd o'r adnoddau sydd ar gael.

Argymhelliad 4: Dylai unrhyw ganllawiau a hyfforddiant a ddarperir gan sefydliadau gynnwys enghreifftiau o ystyriaethau all fod yn berthnasol wrth wneud penderfyniadau polisi. Dylent egluro'n glir bod dau ofyniad o fewn y safonau dogfen ymgynghori - sef ystyried a cheisio barn. Dylent hefyd egluro'r dyletswyddau wrth gynnal neu gomisiynu gwaith ymchwil sy'n cynorthwyo penderfyniad polisi.

Dylai sefydliadau ddefnyddio adnoddau'r Comisiynydd a'r arferion da sydd wedi eu hadnabod yn yr adroddiad hwn i gefnogi cydymffurfiaeth.

- 2.10 Mae gan swyddogion iaith sy'n gweithio i sefydliadau brofiad wrth ddelio â'r Gymraeg a'r safonau, ac felly maent mewn sefyllfa gref i gynghori ar y materion perthnasol i'w ystyried wrth asesu effaith unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

Argymhelliad 5: Dylai swyddogion sydd â chyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau polisi gydweithio'n agosach â swyddogion iaith wrth ystyried effeithiau posib ar y Gymraeg.

Dylai swyddogion iaith gael rôl graffu a chynghorol wrth i benderfyniadau polisi gael eu gwneud er mwyn sicrhau bod gofynion y safonau yn cael eu cwrdd.

3 Safonau Gwneud Penderfyniad Polisi

Gofynion y safonau

- 3.1 Pan mae sefydliad yn llunio, addasu neu adolygu polisi, mae'n rhaid iddo ystyried yr effeithiau all y penderfyniad polisi hwnnw eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid iddo hefyd ystyried sut i gynyddu unrhyw effaith bositif, a lliniaru unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg. Gweler y gofynion yn llawn [yma](#).
- 3.2 Drwy gynnal y llinell ymholi hon, roeddem yn awyddus i ganfod beth yw trefniadau sefydliadau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau polisi. Y ffordd orau o wneud hynny yw trwy gwblhau asesiad effaith ar y Gymraeg.

O'r 89 sefydliad wnaeth ymateb, mae 85 ohonynt yn cwblhau asesiad effaith ar y Gymraeg ar ryw ffurf wrth wneud penderfyniadau polisi.

- 3.3 Mae lefel y manylder a'r sylw a gâi'r Gymraeg o fewn yr asesiadau hynny yn amrywio. Mae rhai sefydliadau yn amlwg yn rhoi sylw manwl i'r Gymraeg wrth gynnal asesiad effaith, tra bod eraill yn rhoi'r argraff bod y Gymraeg yn ôl-ystyriaeth wrth gwblhau asesiad effaith cydraddoldeb. Mae hyn yn lleihau'r gallu i lunio polisi mewn ffordd sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg neu lliniaru unrhyw effeithiau andwyol.

Sut i gydymffurfio

- 3.4 Er mwyn derbyn lefel sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth, rydym yn disgwyl gweld y canlynol:
 - bod y sefydliad yn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg, a bod hynny'n digwydd mor fuan â phosib yn y broses (yn benodol, cyn unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus).
 - bod trefniadau cadarn mewn lle i gwblhau'r broses, sy'n cynnwys canllaw a thempled ar gyflawni asesiad effaith llwyddiannus.
 - bod unrhyw ganllaw neu dempled yn egluro gofynion y safonau hyn yn llawn, ac yn rhoi arweiniad clir i swyddogion ynghylch sut i wneud ymdrech gydwybodol i ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y Gymraeg.
 - bod cyd-weithio rhwng swyddogion wrth baratoi'r asesiad effaith. Yn benodol, hoffem weld bod gan y swyddog iaith, neu swyddog cyfatebol, rôl wrth graffu ar yr asesiad er mwyn sicrhau bod yr effeithiau posib ar y Gymraeg wedi eu hystyried yn gywir, a bod gofynion y safonau wedi eu bodloni. Mae gan swyddog iaith brofiad wrth ddelio â'r Gymraeg a'r safonau, ac felly bydd mewn sefyllfa gref i gynghori ar y materion perthnasol i'w ystyried.
- 3.5 Cafodd y diffiniad o 'ymdrech gydwybodol' ei dderbyn gan Dribiwnlys y Gymraeg yn achos Cyngor Castell-nedd Port Talbot.² Rydym eisoes wedi cynnal [digwyddiad](#) yn egluro beth yw ystyr y term a sut i'w gymhwyso yn ymarferol. Yr argraff wrth

² *Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot v Comisiynydd y Gymraeg* (2023) TyG/22/01 para 118, [penderfyniad-nptcbc-0923.pdf](#) (llyw.cymru)


ddadansoddi'r ymatebon i'r holiadur oedd bod sefydliadau yn parhau i'w chael yn anodd deall yr egwyddor.

- 3.6 I grynhoi, mae angen mwy na thrafodaeth arwynebol a datganiadau ffeithiol am y Gymraeg o fewn yr asesiad effaith os am gydymffurfio gyda'r safonau. Mae angen nodi'r materion sy'n berthnasol, a chynnwys digon o wybodaeth er mwyn dangos bod ymdrech gydwybodol wedi ei wneud i ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.
- 3.7 Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad yn achos Cyngor Castell-nedd Port Talbot bod cynnal asesiad effaith Gymraeg llawn ar ôl cyhoeddi dogfen ymgynghori yn dangos bod ystyriaeth i unrhyw effeithiau ar y Gymraeg yn cael ei ohirio, ac felly nid oes ymdrech gydwybodol wedi ei wneud i ystyried y Gymraeg o fewn y ddogfen ymgynghori. Cyfrifoldeb y sefydliadau yw adnabod effeithiau ar y Gymraeg fel y gall y cyhoedd wneud sylwadau arnynt.
- 3.8 Mae cyd-destun yn bwysig wrth ystyried y term 'ymdrech gydwybodol'. Bydd rhai mathau o benderfyniadau polisi yn gofyn am fwy o ystyriaeth er mwyn cyflawni 'ymdrech gydwybodol', os yw'r cyd-destun yn awgrymu hynny, e.e. os yw'r polisi yn ymwneud ag ardal o sensitifrwydd ieithyddol.
- 3.9 Enghraifft arall o gyd-destun ble disgwylir gweld mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg er mwyn cyflawni ymdrech gydwybodol yw'r maes ad-drefnu addysg. Yn dilyn achosion diweddar yn y maes ble roedd amheuaeth o fethiant i gydymffurfio gyda'r safonau hyn, rydym wedi comisiynu darn o waith er mwyn creu canllaw, templedi a rhestrau gwirio enghreifftiol ar gyfer cyflawni asesiad effaith ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniad polisi yn y maes addysg a hyfforddiant. Byddwn yn cyhoeddi'r adnoddau hyn yn fuan.
- 3.10 Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn yn cynorthwyo sefydliadau i wirio a yw'r prosesau maent wedi eu mabwysiadu wrth lunio polisi newydd neu ddiwygiedig yn y maes addysg yn eu cynorthwyo i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Hunanasesiad sefydliadau

- 3.11 Yn rhan gyntaf yr holiadur, gofynnwyd i sefydliadau wneud hunanasesiad o lefel eu sicrwydd cydymffurfiaeth gyda'r safonau gwneud penderfyniad polisi. Fe wnaethom ni hefyd gofnodi ein hasesiad ein hunain ar sail eu hymatebion i ran gyntaf yr holiadur. Mae hyn wedi ein galluogi i nodi i ba raddau y mae gwahaniaethau sylweddol rhwng asesiad sefydliad o'i gydymffurfiaeth â'n hasesiad ninnau.
- 3.12 Yn gyffredinol, mae'n deg dweud bod asesiad sefydliadau o'u lefel sicrwydd cydymffurfiaeth yn uwch nag ydyw mewn gwirionedd. Er bod 39% o'r sefydliadau yn credu bod eu lefel sicrwydd cydymffurfiaeth yn uchel, dim ond 12% oedd yn cyrraedd y lefel hon yn ôl ein dadansoddiad ni.


3.13 Mae gwaith i'w wneud felly er mwyn addysgu a chodi ymwybyddiaeth sefydliadau o'r hyn sydd angen ei gyflawni er mwyn cydymffurfio'n llawn gyda'r safonau. Gweler y canlyniadau yn llawn isod:




Asesiad y Comisiynydd

3.14 Gweler isod rai o'r ystadegau sy'n dangos ein hasesiad ni o gydymffurfiaeth sefydliadau mewn ymateb i'r cwestiynau unigol. Fe wnaethom nodi ein hasesiad ni ar lefel sicrwydd cydymffurfiaeth y sefydliadau ar sail y wybodaeth gafodd ei gyflwyno i bob cwestiwn.


3.15 Nid yw pob cwestiwn yn berthnasol i ofyniad o dan y safonau yn uniongyrchol, ond maent fodd bynnag yn ffactorau sy'n cyfrannu at gyrraedd lefel sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth, e.e. diweddarau asesiad effaith ar ôl ymgynghori, neu ddarparu canllawiau a thempledi i staff ar y safonau llunio polisi.




Cwestiwn 3 yr holiadur: *Eglurwch pa drefniadau sy'n bodoli i ddiweddarau asesiad effaith yn sgil y broses o ymgynghori ar y penderfyniad polisi.*



Cwestiwn 6 yr holiadur: *Eglurwch pa gamau sydd mewn lle i sicrhau fod y person(au) sy'n cynnal asesiad o effaith ar y Gymraeg yn ymwybodol o: ofynion safonau'r Gymraeg, a chyd-destun ieithyddol posib y penderfyniad polisi.*



3.16 Gofynnwyd i sefydliadau ddarparu enghreifftiau o asesiadau effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd i gyd-fynd â phenderfyniadau polisi a wnaed yn ystod 2023-24. Fe wnaethom ystyried yr asesiadau hynny, a chofnodi lefel sicrwydd cydymffurfiaeth ar eu cyfer. Gweler y canlyniadau yn y siart isod:



- 3.17 Mae'r siart uchod yn dangos na lwyddodd llawer o sefydliadau i ddangos asesiadau effaith gyda sicrwydd 'uchel' o gydymffurfiaeth (10%). Mae hyn yn dipyn is na'r 22% o sefydliadau oedd wedi dangos mewn ymateb i gwestiwn 2 bod eu trefniadau ar gyfer asesu effaith ar y Gymraeg o lefel sicrwydd 'uchel'. Mae hyn yn cefnogi ein canfyddiad fod gan sefydliadau drefniadau da mewn lle er mwyn cydymffurfio, ond nad yw'r trefniadau hynny o reidrwydd yn cael eu dilyn yn ymarferol.
- 3.18 Bu'n rhaid cofnodi 'amherthnasol' ar gyfer 38% o sefydliadau, oherwydd nad oeddynt wedi darparu asesiadau effaith i ni eu hystyried. Fe wnaeth 17 o'r sefydliadau ymateb yn cyfeirio at benderfyniadau polisi gafodd eu gwneud yn ystod y flwyddyn, ond ni wnaethant ddarparu atodiadau o'r asesiadau effaith ar y Gymraeg i gyd-fynd â'r polisiâu hynny. Nid oedd modd i ni gofnodi lefel sicrwydd cydymffurfiaeth ar eu cyfer felly.
- 3.19 Fe nododd 17 sefydliad arall nad oedd ganddynt enghraifft addas o benderfyniadau polisi yn ystod y cyfnod amser. Gan ystyried y diffiniad eang o benderfyniad polisi o dan y Mesur, mae'n annhebygol na wnaeth 17 o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg wneud unrhyw benderfyniad polisi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r diffyg dealltwriaeth o union ofynion y safonau, a bod dealltwriaeth o sgôp y safonau yn parhau i fod yn gymharol isel.

Arferion da

- 3.20 Yn yr adran yma, rydym am gyflwyno a thrafod rhai o'r arferion da ddaeth i'r amlwg wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r holiaduron. Rydym yn gobeithio y gwnaiff sefydliadau ystyried cymhwyso'r arferion da hyn i'w trefniadau o wneud penderfyniad polisi, er mwyn anelu at lefel sicrwydd cydymffurfio uchel gyda'r safonau.
- 3.21 Dylid nodi bod rhai o'r enghreifftiau yn yr adroddiad hwn wedi eu cyfieithu gan mai yn Saesneg yn unig y cawsant eu cyflwyno fel tystiolaeth i ni.

Asesiad ar wahân o'r Gymraeg

- 3.22 Rydym o'r farn y byddai sefydliad yn fwy tebygol o gydymffurfio â'r safonau os yw'r Gymraeg yn cael ystyriaeth ar wahân i'r nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hynny oherwydd gellir rhoi mwy o bwyslais ac ystyriaeth i ofynion penodol y safonau.
- 3.23 Fe wnaeth un sefydliad addasu ei drefniadau fel bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar wahân:

Enghraifft gan Awdurdod Parc Cenedlaethol:

"Daethpwyd i'r casgliad bod cael yr asesiad effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r asesiad integredig ehangach yn annigonol... penderfynwyd cynnal yr asesiad o'r effaith ar y Gymraeg a'i ddogfennu mewn dogfen ar wahân i'r asesiad integredig, a fyddai'n galluogi llawer mwy o fanylder a dyfnder i gael eu dogfennu yn yr asesiad yn y cam cychwynol..."

- 3.24 Nododd y sefydliad ei fod yn dibynnu yn ormodol ar y broses ymgynghori a barn y cyhoedd i dynnu ei sylw at effeithiau posib ar y Gymraeg. Newidiodd ei drefniadau felly i sicrhau bod asesiad effaith ar y Gymraeg yn digwydd ar wahân yn ddigon cynnar yn y broses o wneud penderfyniad polisi.

- 3.25 Dim ond pump sefydliad sydd gan dempled ar wahân ar gyfer cyflawni asesiad effaith ar y Gymraeg. Yr enghraifft ddaeth i'r amlwg fwyaf o fewn yr ymatebion i'r holiadur yw bod y Gymraeg yn cael ei hystyried fel rhan o asesiad effaith cydraddoldeb.
- 3.26 Gan gydnabod bod rhai sefydliadau o'r farn bod ystyried y Gymraeg ar y cyd ag ystyriaethau cydraddoldeb yn rhoi statws mwy cyfartal i'r Gymraeg, rhaid cofio bod gofynion y safonau yn wahanol i ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 (gaiff ei egluro yn ar [dudalen 98 ein Cod Ymarfer](#)). Gall cynnwys y Gymraeg fel nodwedd warchoddedig o fewn asesiad effaith cydraddoldeb fod yn arferiad gwallus, gan nad yw hynny bob amser yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion o dan y safonau.
- 3.27 Ffactor sy'n pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfundrefn gyfreithiol yw bod cwestiwn yn y mwyafrif o'r asesiadau effaith cydraddoldeb a ddarparwyd yn gofyn sut oedd y sefydliad am leihau unrhyw effaith andwyol. Nid oes cwestiwn cyfatebol yn gofyn sut oedd y sefydliad am gynyddu unrhyw effaith positif (yn unol â'r safonau).

Canllawiau a hyfforddiant penodol

- 3.28 Fe wnaethom adnabod arfer da lle'r oedd sefydliadau'n creu canllawiau a hyfforddiant penodol i egluro sut i gynnal asesiad effaith ar y Gymraeg.

Enghraifft gan Awdurdod Lleol:

Mae Tribiwnlys y Gymraeg wedi gwneud penderfyniad yn ddiweddar sydd â chanlyniadau pellgyrhaeddol o ran sut mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn mynd ati i lunio polisiâu.

- > Y Tribiwnlys Yn Cefnogi Dyfarniad Comisiynydd y Gymraeg
- > Dyfarniad Tribiwnlys y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno seminar gynghori yn manylu ar y camau i'w cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Dylai pob swyddog Cyngor sy'n ymwneud â llunio polisi a chynnal asesiadau effaith ac ymgynghoriadau cyhoeddus wylio'r seminar.

- > Seminar GYG ar Ddogfennau Ymgynghori

Bydd adolygiad buan o'r gweithdrefnau presennol yn dangos bod y Cyngor wedi gweithredu'n rhagweithiol i ymgorffori'r canllawiau hyn gan weithredu i'n hamddiffyn rhag ymchwiliadau statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg a'r risg canlyniadol i'n henw da.

Ymdrech Gydwybodol

Mae gwneud ymdrech gydwobodol i adnabod effeithiau penderfyniad polisi ar y Gymraeg yn ofyniad cyfreithiol. Disgwylir arweiniad pellach gan y Comisiynydd, ond mynegwyd yn glir na fydd unrhyw fath o ymarfer ticio blychau gyda'r ymdrech leiaf bosib, asesiadau heb unrhyw dystiolaeth, a/neu asesiadau sydd ond nodi effeithiau negyddol yn unig, yn ddigonol.

Beth sy'n cael ei ystyried yn ymdrech gydwobodol?

Dyma rai pethau pwysig i'w hystyried:

1. Deall y cyd-destun

Mae ymdrech gydwobodol yn dibynnu ar y cyd-destun. Bydd penderfyniadau polisi sy'n cael effaith ar ddefnydd o'r Gymraeg, mynediad i'r iaith ac ar hyrwyddo'r Gymraeg yn destun trothwy uwch na phenderfyniadau heb fawr o effaith ar y Gymraeg. Mae

enghreiffiau o bolisiâu trothwy uwch yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) gwaith gyda phobl ifanc a phlant, strategaeth addysg a chynlluniau trefniadaeth ysgolion, cyllideb y Cyngor, cynigion darparu gwasanaethau, recriwtio a hyfforddi staff Cymraeg, a chyllid ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau Cymraeg.

2. Amseriad

Rhaid cwblhau asesiadau effaith cyn ymgynghori'n gyhoeddus. Mae canlyniadau'r asesiad yn llywio cynnwys dogfennau a chwestiynau yr ymgynghoriad cyhoeddus. Mae hyn yn sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir i'r cyhoedd yn gynhwysfawr, yn dangos bod y Cyngor wedi asesu'r effaith, a bod y camau gweithredu i liniaru effeithiau negyddol a hyrwyddo effeithiau cadarnhaol wedi'u hadnabod.

3. Ehangu Asesiadau Effaith

Rhaid i asesiadau effaith ystyried effeithiau cadarnhaol, negyddol a niwtral er mwyn darparu sail letach i'r penderfyniad polisi. Bydd cyflwyno'r ystod gyfan o effeithiau sydd wedi eu hadnabod, ac ymatebion arfaethedig y Cyngor iddynt, yn gweithredu i liniaru risg a chefnogi camau gweithredu cadarnhaol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.

4. Bod yn Benodol

Ni fydd darparu datganiadau cyffredinol am waith y Cyngor - neu gyfeirio at strategaethau a pholisiâu eraill - yn cyfiawnhau asesiadau effaith llai manwl. Mae effeithiau penodol gan bob penderfyniad polisi. Ni ellir cymryd yn ganiataol eu bod wedi cael eu hystyried yn ddigonol yn rhywle arall na bod camau i liniaru effeithiau negyddol a hyrwyddo effeithiau cadarnhaol eisoes wedi'u rhoi ar waith. Rhaid asesu penderfyniadau polisi arfaethedig ar eu telerau eu hunain ac ni fydd rhestru gwybodaeth gyffredinol am gamau gweithredu a chyflawniadau blaenorol - na'r hyn sydd eisoes wedi'i wneud mewn maes penodol - yn bodloni'r gofynion.

Camau Gweithredu

- Gwyliwch Seminar Canllawiau'r Comisiynydd
- Trefnwch drafodaeth ar y canllawiau fel eitem agenda ar gyfer cyfarfodydd tîm
- Adolygwch y canllawiau llunio polisiâu
- Diwygiwch y canllawiau hyn i gynnwys cyfeiriad at y gofyniad i ddangos ymdrech gydwybodol wedi ei dystiolaethu.
- Mynnwch berchnogaeth dros y broses asesu.
- Sicrhewch fod yr holl asesiadau effaith yn cael eu cwblhau cyn unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus.
- Defnyddiwch yr asesiadau i nodi effeithiau cadarnhaol, negyddol a niwtral
- Cyflwynwch gamau gweithredu i liniaru effeithiau negyddol a hyrwyddo effeithiau cadarnhaol
- Bwydwch ganlyniadau'r asesiad i ddogfennau polisi a chwestiynau.

3.29 Mae mwy nag un sefydliad wedi creu canllaw sy'n cyfeirio at achosion diweddar Tribiwnlys y Gymraeg,³ sydd wedi sefydlu egwyddorion pwysig ynghylch y safonau llunio polisi. Mae enghreifftiau o ganllawiau llwyddiannus hefyd yn cyfeirio at yr

³ *Cyngor Dinas a Sir Abertawe v Comisiynydd y Gymraeg* (2022) TyG/21/01, [penderfyniad-achos-tyg2101-27-07-2022.pdf](#) (llyw.cymru)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot v Comisiynydd y Gymraeg (2023) TyG/22/01, [penderfyniad-nptcbc-0923.pdf](#) (llyw.cymru)

angen i ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, yn ogystal â'r angen am 'ymdrech gydwybodol' i ystyried yr effeithiau hyn. Mae cynnwys y wybodaeth yma i gyd mewn un lle yn allweddol er mwyn cynorthwyo staff i ddeall gofynion y safonau hyn.

- 3.30 Arfer da arall y gwnaethom adnabod oedd sefydliadau'n rhannu enghreifftiau o effeithiau posibl ar y Gymraeg i staff. Mae hyn yn ffordd dda o dynnu sylw at effeithiau pwysig i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau polisi, e.e. Effaith ar nifer o siaradwyr Cymraeg; y Gymraeg yn y gweithle; defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg; defnydd o wasanaethau Cymraeg ac ati.

Enghraifft gan Awdurdod Heddlu:

Beth yw'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg?

- Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn ymwneud â'r iaith Gymraeg?
- A yw'r polisi, neu a allai'r polisi, hyrwyddo'r Gymraeg yn fwy a/neu'r defnydd o'r Gymraeg?
- Pa agweddau o'r polisi sy'n berthnasol i'r Gymraeg?
- Pa un, os o gwbl, o Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys?
- A allai'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Pa grwpiau Cymraeg sy'n berthnasol i'r polisi hwn?
- A yw'n bolisi a allai effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth neu sut mae gwasanaethau neu swyddogaethau yn cael eu perfformio?
- A fydd yn cael effaith ar sut mae cyrff eraill yn gweithredu o ran y Gymraeg (er enghraifft, strategaeth genedlaethol neu feini prawf arolygu)?
- A yw'n ymwneud â swyddogaethau sydd wedi eu nodi fel rhai pwysig i siaradwyr Cymraeg yn dilyn ymarferion ymgysylltu blaenorol?

A fydd y camau arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?

- Defnyddio'r Gymraeg
- Cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith
- Nifer a/neu ganran o siaradwyr Cymraeg
- Rhuglder a hyder siaradwyr a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg
- Trosglwyddo'r Gymraeg gartref / o un genhedlaeth i'r nesaf
- Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Cynyddu seilwaith cyfryngau digidol Cymraeg a/neu'r cyfryngau digidol
- Llif y siaradwyr Cymraeg i mewn ac allan o gadarnleoedd traddodiadol Cymru
- Effaith net ar y nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg mewn ardal / neu yn genedlaethol
- Hyrwyddo'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd a'i statws

I ba raddau y bydd y camau arfaethedig yn effeithio ar y canlynol?

- Cadarnleoedd traddodiadol sy'n siarad Cymraeg lle mae'r boblogaeth yn dirywio ac o dan fygythiad pellach (lle roedd tua 70% yn siarad Cymraeg yn flaenorol)
- Nodweddion ardal ddaearyddol, megis agosrwydd hanesyddol neu adnoddau diwylliannol, safleoedd y mae'r Gymraeg yn berthnasol iddynt, sy'n codi ymwybyddiaeth o Gymru ac mae ganddo gysylltiadau i dwristiaid, mynediad at wasanaethau Cymraeg
- Effeithio'n andwyol ar ardaloedd, safleoedd, priffyrdd, strwythurau neu wrthrychau o ddiddordeb i siaradwyr Cymraeg.

- 3.31 Mae'n bwysig bod sefydliadau yn atgoffa staff nad rhestr gyflawn sydd yma, ac y gall effeithiau posibl amrywio yn ddibynnol ar gyd-destun y penderfyniad polisi. Ceir rhestr o effeithiau posib i'w ystyried ar [dudalen 94](#) ein Cod Ymarfer, ac ar ein [gwefan](#).
- 3.32 Mae hyfforddiant ar y safonau llunio polisi yn allweddol er mwyn addysgu staff sy'n rhan o'r broses o lunio polisi. Nododd un sefydliad bod yr adran Gymraeg wedi bod yn cynnal sesiynau briffio ar y gofynion gyda'r uwch dimau rheoli gwasanaethau, a bod mwy o sesiynau wedi eu cynllunio ar gyfer gweddill y flwyddyn.
- 3.33 Dangosodd sefydliad arall yr hyfforddiant sydd wedi ei sefydlu ar gyfer awduron asesiadau effaith. Mae'r hyfforddiant (sydd ar ffurf PowerPoint) yn cynnwys llawer o wybodaeth fuddiol ynghylch beth yw penderfyniad polisi; beth yw asesiad effaith ar y Gymraeg; effaith y dyfarniad Tribiwnlys yn achos Cyngor Castell-nedd Port Talbot; a mwy.

Enghraifft gan sefydliad yn y sector lechyd:

Ymdrech Gydwbybodol

Mae'r trothwy ar gyfer "ymdrech gydwbybodol" yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac mae'n rhaid gwneud mwy:

- mewn ardal sensitif neu arwyddocaol o ran y Gymraeg
- wrth i nifer a/neu faint yr effeithiau posib ar y Gymraeg gynyddu
- os oes polisi neu ganllaw lleol yn (e.e. yn y maes addysg neu gynllunio) yn gofyn am asesiad o effeithiau posib ar y Gymraeg

Mae'n fwy tebygol y bydd "ymdrech gydwbybodol" yn cael ei wneud os oes ystod eang o effeithiau'n cael eu hystyried. Nid yw'n ddigonol cynnwys cyfres o ddatganiadau ffeithiol, cyffredinol am y Gymraeg

5 Pwynt

1. Trin effeithiau ar y Gymraeg o dan un pennawd mewn asesiad effaith integredig – annigonol
2. Symud oddi wrth y dull gor-syml o ofyn beth yw'r 'effaith net' ar y Gymraeg
3. Man cychwyn – 2 golofn: effeithiau uniongyrchol/effeithiau anuniongyrchol
4. Yn y ddwy golofn ceisiwch nodi o leiaf 3 effaith gadarnhaol a 3 effaith negyddol
5. Cymryd perchnogaeth o'r asesiadau effaith ar y Gymraeg

- 3.34 Mae cynnal hyfforddiant i staff perthnasol yn un ffordd o sicrhau bod staff yn ymwybodol o ofynion y safonau llunio polisi. Gall hefyd gyfrannu at symud i ffordd o'r thema gyffredin sydd wedi amlygu bod trefniadau cadarn mewn lle, ond nad ydynt yn cael eu dilyn yn gywir.

Asesiad effaith fel dogfen 'fyw'

- 3.35 Mae canran uchel o sefydliadau (74%) wedi dangos bod trefniadau mewn lle i sicrhau bod asesiad effaith ar y Gymraeg yn ddogfen fyw, sydd angen ei diweddarau er mwyn adlewyrchu unrhyw effeithiau newydd sy'n dod i'r amlwg yn dilyn ymgynghori. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod barn y cyhoedd yn cael ei adlewyrchu mewn asesiad effaith, ac mae'n sicrhau bod sefydliadau yn rhoi sylw dyladwy i sylwadau gan y cyhoedd.
- 3.36 Fe eglurodd un sefydliad yn ei ymateb bod yr asesiad effaith yn aros yn agored tan fod y penderfyniad terfynol wedi ei wneud a bod cyfnod o adolygu wedi bod.

Dangosodd sefydliad arall bod ei ganllaw ar asesu effaith ar y Gymraeg yn egluro y gall canfyddiadau asesiad effaith fod yn wahanol ar ôl y broses o ymgysylltu neu ymgynghori gyda'r cyhoedd.

Enghraifft gan Awdurdod Lleol:

“Mae'n angenrheidiol fod yr asesiad effaith yn cael ei wneud o'r cychwyn. Os yw'r newidiadau yn rai swmpus sy'n cael effaith mawr ... efallai bydd angen gwneud sawl fersiwn. Mi fydd eich canfyddiadau ar y cychwyn yn wahanol i'r rhai fydd gennych ar ôl ymgysylltu.”

Meysydd i'w gwella

3.37 Yn yr adran yma, rydym am gyflwyno a thrafod rhai meysydd sydd angen eu gwella wrth fynd ati i gwblhau asesiad o effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Daeth yr arferion yma i'r amlwg wrth i ni ddadansoddi'r ymatebion i'r holiaduron.

Diffyg 'ymdrech gydwybodol'

3.38 Gwelwyd ei fod yn arferiad gan rai sefydliadau i roi datganiadau am y Gymraeg yn yr asesiad effaith, heb nodi unrhyw effeithiau penodol. Rhaid cofio bod y safonau yn datgan yn glir bod angen ystyried **effeithiau positif** ar y Gymraeg, ac felly nid yw cynnwys cyfres o ddatganiadau ffeithiol am y Gymraeg mewn asesiad effaith yn ddigonol i gydymffurfio.

3.39 Fe gododd hyn yn aml yn yr enghreifftiau o asesiadau effaith gafodd eu darparu. E.e. *'Bydd y dogfennau ar gael yn ddwyieithog'*. Nid yw datganiad fel hyn wir yn cyfleu effaith y polisi ei hun ar y Gymraeg.

3.40 Roedd un enghraifft o asesiad effaith ar bolisi'r Gymraeg yn y gweithle yn nodi *'Mae'r polisi wedi ei greu er mwyn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau triniaeth ffafriol i'r Gymraeg'*. Dyma yn unig oedd hyd a lled yr asesiad effaith a wnaethpwyd ar y Gymraeg. Gan dderbyn ei bod yn debygol mai effeithiau positif yn bennaf fyddai'r polisi yn ei gael ar y Gymraeg, nid yw hynny'n golygu nad oes angen adnabod ac ystyried yr effeithiau hynny.

3.41 Nodwyd mewn enghraifft o asesiad effaith ar bolisi mewnol ynghylch datblygu staff y byddai effaith andwyol ar y Gymraeg, sef llai o gyfleoedd i staff ddatblygu yn y Gymraeg o'i gymharu â'r Saesneg. Ychwanegwyd y dylai'r effaith yma gael ei liniaru gan Fesur y Gymraeg 2011, gan ei fod yn datgan y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal. Fodd bynnag, nid yw hyn yn bodloni gofynion y safonau llunio polisi. Nid yw hyn yn gyfystyr ag 'ymdrech gydwybodol' i ystyried sut i liniaru unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg.

Y safonau yn amherthnasol

3.42 Fe nododd pedwar sefydliad nad yw'r safonau hyn yn berthnasol i'w gwaith gan nad ydynt yn llunio polisiâu cyhoeddus sydd ag unrhyw effaith ar y Gymraeg. Bu'n rhaid i ni gysylltu gyda thri sefydliad arall oedd wedi gofyn am berthnasedd yr holiadur iddyn nhw. Hoffem bwysleisio nad oes rhaid i benderfyniad polisi fod yn un gydag effeithiau eang a chyhoeddus er mwyn dod o dan ofynion y safonau. Mae penderfyniadau ynghylch yr isod oll yn berthnasol i'r safonau:

- Cynnwys deddfwriaeth
- Arfer pwerau statudol

- Cynnwys datganiadau polisi
- Strategaethau neu gynlluniau strategol
- Strwythurau mewnol
- Lleoliadau swyddfeydd ac adeiladau
- Recriwtio neu ddefnyddio gwirfoddolwyr
- Dyrannu cyllid neu gymorth ariannol
- Yr iaith a ddefnyddir i weinyddu'n fewnol

3.43 Mae'n bwysig cofio bod y safonau yn berthnasol i benderfyniadau sy'n effeithio ar aelodau o staff y sefydliad, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd. Rydym yn annog sefydliadau felly i edrych yn ofalus ar statws eu penderfyniadau, boed yn rai mewnol neu allanol, cyn cymryd yn ganiataol nad oes angen asesiad effaith ar y Gymraeg.

3.44 Yn ogystal â hyn, os yw sefydliad yn casglu nad oes effaith ar y Gymraeg wrth wneud y penderfyniad polisi, mae'n rhaid dangos bod proses mewn lle i adnabod a dod i'r casgliad hwnnw.

3.45 Dylai sefydliadau sy'n dod o dan Reoliadau Rhif 1 gadw mewn cof bod safon 150 yn nodi'n benodol bod angen cadw cofnod o'r camau sydd wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi. Felly, os yw sefydliad yn casglu nad oes effaith ar y Gymraeg, rhaid ei fod yn gallu dangos cofnodion o sut wnaeth ddod i'r casgliad hwnnw, e.e. copïau o gofnodion cyfarfodydd i drafod effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg.

Casgliad

3.46 Mae sawl arfer da yn cael eu cymhwyso wrth ystyried y Gymraeg yn ystod y broses o lunio polisi. Fodd bynnag, mae angen gwella'r meysydd craidd os am sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda'r safonau llunio polisi. Mae'r angen am ymdrech gydwybodol i ystyried y Gymraeg o bwysigrwydd sylfaenol os am sicrhau lefelau uchel o sicrwydd.

4 Safonau Dogfen Ymgynghori

Gofynion y safonau

- 4.1 Pan mae corff yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau posib ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid hefyd ystyried a cheisio barn ynghylch sut i gynyddu unrhyw effaith positif, a lliniaru unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg. Gweler y gofynion yn llawn [yma](#).
- 4.2 Mae'r safonau hyn yn gosod dau ofyniad ar sefydliadau wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori. Yn gyntaf, rhaid 'ystyried' y Gymraeg, ac yn ail rhaid 'ceisio barn' am y Gymraeg. Yn ail ran yr holiadur, roeddem yn awyddus i ddeall lefel ymwybyddiaeth ymhlith sefydliadau o'r ddau ofyniad, a faint oedd yn bodloni'r ddau ofyniad yn ymarferol.
- 4.3 Dylid nodi mai dim ond dogfen ymgynghori sy'n berthnasol i'r safonau yma. Fe wnaeth un sefydliad ddarparu enghreifftiau o ymatebion i ffurflen grwpiau ffocws, a chyfeiriodd sefydliad arall at ddigwyddiadau gyda'r cyhoedd ble roedd sgysiau wyneb yn wyneb wedi eu trefnu. Nid yw dulliau ymgynghorol o'r fath yn dod o dan ofynion y safonau hyn.

Sut i gydymffurfio


- 4.4 Mae'r gofyniad i 'geisio barn' yn golygu bod rhaid i sefydliadau gynnwys cwestiynau penodol ynghylch yr effeithiau ar y Gymraeg mewn unrhyw ddogfen ymgynghori. Hynny yw, cwestiynau sy'n gofyn am effaith y penderfyniad ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Arfer sy'n gyffredin yw defnyddio'r un cwestiynau ar gyfer pob dogfen ymgynghori ar benderfyniad polisi. Mae hyn yn un ffordd o sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau.
- 4.5 Dylid nodi fodd bynnag bod defnyddio cwestiynau o'r fath yn gyfystyr â'r lleiafswm a ellid ei wneud er mwyn cydymffurfio gyda'r gofyniad i geisio barn. Rydym yn annog sefydliadau i feddwl tu hwnt i'r cwestiynau cyffredinol, ac unwaith eto yn pwysleisio pwysigrwydd edrych ar gyd-destun y penderfyniad polisi. Yn ddelfrydol, byddai cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori sy'n gofyn yn benodol am effaith y cynnig ar y Gymraeg, gan deilwra'r cwestiynau ar gyfer y penderfyniad polisi sydd dan sylw.
- 4.6 Mae'r gofyniad i 'ystyried' yn golygu bod rhaid i sefydliadau nodi, amlinellu ac ystyried yr effeithiau posib ar y Gymraeg, ac ystyried yr opsiynau sydd ar gael fyddai'n ei alluogi i wneud y penderfyniad mewn ffordd fyddai'n cael effeithiau mwy positif a llai andwyol ar y Gymraeg. Mae disgwyliad bod sefydliadau yn ystyried yr effeithiau yng nghyd-destun y Gymraeg yn yr ardaloedd neu'r cymunedau yr effeithir arnynt, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- 4.7 Mae'n bosib y byddai cynnwys y testun ar yr effeithiau ar y Gymraeg o'r asesiad effaith o fewn y ddogfen ymgynghori yn ddigonol ar gyfer cydymffurfio gyda'r gofyniad i ystyried y Gymraeg, os yw'n dangos bod ymdrech gydwybodol wedi ei wneud i ystyried y Gymraeg. Gellid hefyd cynnwys atodiad at yr asesiad effaith ar y Gymraeg o fewn y ddogfen ymgynghori, gan grynhoi'r prif bwyntiau yng nghorff y ddogfen ymgynghori.
- 4.8 Mae'n bwysig bod ymdrech gydwybodol yn cael ei wneud i ystyried y Gymraeg mewn dogfen ymgynghori. Cyfrifoldeb y sefydliadau yw adnabod yr effeithiau posib

ar y Gymraeg, a'u hystyried yn y ddogfen ymgynghori fel gall y cyhoedd wneud sylwadau gwybodus mewn ymateb iddynt. Nid cyfrifoldeb y cyhoedd yw cyflwyno effeithiau posib y cynnig i sefydliadau eu hystyried am y tro cyntaf ar ôl y broses o ymgynghori.

- 4.9 Os mai'r farn ar ôl cynnal asesiad o effaith ar y Gymraeg yw nad oes effaith ar y Gymraeg o gwbl, mae'n bwysig bod sefydliadau yn datgan hynny'n glir yn y ddogfen ymgynghori, gan gyfeirio at y rhesymau dros ddod i'r casgliad hwnnw. Mae hyn er mwyn dangos i'r cyhoedd bod y sefydliad wedi mynd ati i ystyried unrhyw effaith ar y Gymraeg, ond wedi casglu nad oes effaith bosib yn bodoli.


Hunan-asesiad sefydliadau

- 4.10 Fel ar ddiwedd adran gyntaf yr holiadur, gofynnwyd i sefydliadau wneud hunanasesiad o lefel eu sicrwydd cydymffurfiaeth ar ddiwedd yr ail adran hefyd. Fe wnaethom ni hefyd gofnodi ein hasesiad ein hunain ar lefelau sicrwydd cydymffurfiaeth y sefydliadau gyda'r safonau dogfen ymgynghori.
- 4.11 Gweler isod y siart sy'n dangos y gymhariaeth rhwng asesiad y sefydliadau a'n hasesiad ni ar eu lefel sicrwydd cydymffurfiaeth. Mae'n ymddangos unwaith eto bod asesiad sefydliadau o'r lefel sicrwydd cydymffurfiaeth yn uwch na'n hasesiad ninnau. Mae'n bryder bod 29% o'r 89 sefydliad wnaeth ymateb yn ystyried bod eu lefel sicrwydd cydymffurfiaeth gyda'r safonau yma yn 'uchel'. Ni wnaethom ddod ar draws yr un sefydliad gyda lefel sicrwydd 'uchel' o gydymffurfiaeth gyda'r safonau dogfen ymgynghori.
- 4.12 Fe wnaethom hefyd gofnodi bod 40% o'r sefydliadau gyda lefel sicrwydd cydymffurfio 'isel'. Mae gwaith i'w wneud i wella yn y maes hwn felly.



Asesiad y Comisiynydd


4.13 Gweler isod rai o'r ystadegau eraill a gasglwyd mewn ymateb i ail ran yr holiadur. Noder mai ein hasesiad ni ar lefel sicrwydd cydymffurfiaeth sydd isod, a hynny ar sail yr ymatebion a ddarparwyd gan y sefydliadau.



4.14 Ar y cyfan, roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos lefel cydymffurfiaeth is na'r disgwyl o safbwynt trefniadau wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori. Un o'r prif resymau am hyn oedd diffyg dealltwriaeth ymhlith sefydliadau bod dau ofyniad o fewn y safonau yma. Mae wedi dod i'r amlwg bod mwy o sefydliadau yn bodloni'r gofyniad i 'geisio barn' nag sydd mewn perthynas â'r gofyniad i 'ystyried'. Rhaid cofio bod angen bodloni'r ddau ofyniad er mwyn cydymffurfio'n llawn â gofynion y safonau hyn.

4.15 Mewn perthynas â chwestiwn 9 yn y siart uchod, arweiniodd ymateb 15% o'r sefydliadau atom i ni gofnodi 'Dim sicrwydd' ar eu cyfer, sy'n gyfystyr ag 14 sefydliad. Roedd hyn yn bennaf oherwydd diffyg dealltwriaeth o ofynion y safonau wrth ymateb i ail adran yr holiadur (deg sefydliad). Nododd y gweddill yn glir nad oedd ganddynt drefniadau i ystyried a cheisio barn wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori (pedwar sefydliad). Nid oes sicrwydd y byddai'r sefydliadau hynny yn cydymffurfio o gwbl gyda'r safonau yma.

4.16 Gofynnwyd i sefydliadau ddarparu enghreifftiau o ddogfennau ymgynghori i ni eu hystyried a phennu lefel sicrwydd cydymffurfiaeth ar eu cyfer. Gweler siart y canlyniadau isod. Dim ond 28% o'r sefydliadau wnaeth ddarparu dogfennau ymgynghori i ni eu hystyried. Cyfeiriodd 24 sefydliad at enghreifftiau o ddogfennau ymgynghori, ond ni wnaethant eu hatodi fel rhan o'r dystiolaeth. Nododd 40 sefydliad arall nad oedd ganddynt enghreifftiau o ddogfennau ymgynghori i ddarparu o gwbl.



Arferion da

4.17 Dyma gyflwyno rhai o'r arferion da ddaeth i'r amlwg wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r adran hwn o'r holiadur. Mae'r rhain yn arferion y dylai sefydliadau ystyried eu cymhwyso er mwyn gweithio tuag at gyrraedd lefel uchel o gydymffurfiaeth wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori.

Cwestiynau unigryw i'r penderfyniad polisi

4.18 Darparodd un sefydliad enghraifft o ddogfen ymgynghori oedd yn gofyn cwestiynau pellach am effaith y cynnig ar y Gymraeg, a hynny tu hwnt i eiriad penodol y safonau:

Enghraifft gan Awdurdod Lleol:

Ydych chi'n credu y gallai cynyddu premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi gael effaith negyddol/cadarnhaol neu niwtral ar:

	Effaith Gadarnhaol	Dim effaith	Effaith Negyddol	Dwi ddim yn gwybod
Gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cynyddu'r nifer o bobl sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg yn y Sir?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Defnyddio gwasanaethau Cymraeg?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cymunedau Cymraeg eu hiaith?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

4.19 Mae'n amlwg bod sefydliadau wedi ceisio gwneud ymdrech i sicrhau eu bod yn 'ceisio barn' wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori. Dangosodd 11 o sefydliadau bod ganddynt gwestiynau gosod mewn templed neu ganllaw fel bod staff yn cydymffurfio gyda'r gofyniad yma. Fel sydd wedi ei nodi eisoes, rydym yn cefnogi sefydliadau sy'n mynd tu hwnt i ddefnyddio union eiriad y safonau wrth ofyn y cwestiynau hyn, ac yn gofyn cwestiynau sy'n fwy penodol i'r penderfyniad polisi sydd dan sylw.

Canllaw clir

4.20 Mae canllaw clir sy'n egluro gofynion y safonau yn allweddol er mwyn i staff gael dealltwriaeth o'r hyn sydd angen ei gyflawni wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori. Mae'r enghraifft isod yn rhan o ganllaw sy'n dangos bod y sefydliad wedi mynd ati i egluro gofynion y safonau mewn ffordd glir a chryno i'w staff.

4.21 Mae hefyd yn pwysleisio bod dau ofyniad o dan y safonau hyn, sef 'ystyried' a 'cheisio barn'. Mae'n gadarnhaol ei fod yn cyfeirio at yr achos Tribiwnlys diweddar, gan ddarparu dolen, er mwyn rhoi cyfle i staff ddarllen mwy am yr egwyddorion gafodd eu sefydlu yn y dyfarniad. Mae'r rhestr o effeithiau posib i'w hystyried hefyd i'w ganmol.

Enghraifft gan sefydliad cenedlaethol

Yn ogystal â cheisio barn ymatebwyr drwy'r cwestiynau safonol a geir yn y templed ymgynghori, rhaid i ni hefyd ddangos sut rydym wedi ystyried yr iaith yn naratif y ddogfen ymgynghori ei hun. Mae dyfarniad diweddar gan Dribiwnlys y Gymraeg ([TYG/WLT/22/01](#)) ar y safonau llunio polisi wedi llywio ein dealltwriaeth o sut mae Comisiynydd y Gymraeg a'r Tribiwnlys yn dehongli gofynion y safonau llunio polisi: rhaid i ni ddangos bod "ymdrech gydwbybodol" wedi'i gwneud i ystyried effeithiau posibl ein polisi ar y Gymraeg.

Er mwyn ein helpu i ystyried pa effeithiau y gallai'r polisi ei gael ar y Gymraeg, gellir defnyddio'r fformat canlynol o bwyntiau bwled a'u cynnwys yn eich dogfen ymgynghori i helpu i restru effeithiau posibl. Mae angen i ni ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn effeithiau posibl ar:

- a) Nifer y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol, neu mewn ardal ddaearyddol benodol, sector neu grŵp penodol o siaradwyr Cymraeg
- b) Trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd
- c) Y Gymraeg yn y gweithle
- d) Defnyddio gwasanaethau Cymraeg
- e) Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg
- f) Gwelededd y Gymraeg
- g) Bywiogrwydd cymunedau Cymraeg

Meysydd i'w gwella

Cydymffurfio gyda'r ddau ofyniad

4.22 Un maes a ddaeth yn amlwg wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r holiadur oedd methiant sefydliadau i fodloni'r ddau ofyniad o fewn y safonau dogfen ymgynghori, sef, 'ystyried' a 'cheisio barn'.

- 4.23 Wrth edrych ar yr enghreifftiau o ddogfennau ymgynghori a ddarparwyd (gan 25 sefydliad), dim ond dau wnaeth lwyddo ar y cyfan i ystyried a cheisio barn o fewn y dogfennau ymgynghori. Fe wnaeth 13 fodloni'r gofyniad i 'geisio barn', ond methu ag 'ystyried'. Llwyddodd 10 arall i 'ystyried', ond methu a 'cheisio barn'. Patrwm cyson felly yw bod sefydliadau yn bodloni un gofyniad, ond ddim y llall. Mae hyn yn esbonio pam na dderbyniodd yr un sefydliad lefel sicrwydd cydymffurfiaeth 'uchel' gennym.
- 4.24 Mewn perthynas â'r gofyniad i 'ystyried', daeth i'r amlwg mai prin iawn oedd y trefniadau gan sefydliadau i gydymffurfio gyda'r gofyniad yma. Ag eithrio'r enghraifft o ganllaw uchod, ni wnaethom ddod ar draws llawer o ganllawiau na thempledi yn egluro sut i 'ystyried' y Gymraeg mewn dogfen ymgynghori.

Casgliad

- 4.25 Er i ni adnabod rhai enghreifftiau o arfer dda gan sefydliadau, mae gwaith i'w wneud i sicrhau bod gwell dealltwriaeth o'r ddau ofyniad sydd o fewn y safonau hyn. Rhaid bodloni'r ddau er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r safonau. Ar y cyfan, mae'r gwaith mwyaf angen ei wneud ar y trefniadau mewn perthynas â'r gofyniad i 'ystyried' y Gymraeg mewn dogfen ymgynghori.

5 Safonau Ymchwil

Gofynion y safonau


- 5.1 Pan mae sefydliad yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i gynorthwyo wrth wneud penderfyniad polisi, rhaid i'r ymchwil hwnnw ystyried unrhyw effaith all y penderfyniad polisi ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r ymchwil hefyd ystyried sut ellid gwneud y penderfyniad polisi fel y byddai'n cynyddu unrhyw effaith positif, a lliniaru unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg. Gweler y gofynion yn llawn [yma](#).

Sut i gydymffurfio

- 5.2 Gan amlaf, bydd y ddyletswydd yma'n bodoli yn fuan iawn yn y broses o wneud penderfyniad polisi. Dyma pryd fydd sefydliadau yn dechrau'r gwaith o baratoi tuag at benderfyniad polisi, gan wneud gwaith ymchwil i gynorthwyo'r penderfyniad. Ar y pwynt yma, rhaid i'r ymchwil gymryd i ystyriaeth yr effeithiau posib ar y Gymraeg, boed hynny ar y nifer o siaradwyr Cymraeg, y Gymraeg yn y gymuned, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, a mwy.
- 5.3 Mae [tudalen 96 ein Cod Ymarfer](#) yn egluro y gall sefydliadau ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir ar y pwynt yma i'w cynorthwyo i gydymffurfio gyda'r safonau gwneud penderfyniad polisi. Mae hynny oherwydd ei fod yn dangos bod ystyriaeth wedi ei roi i'r Gymraeg yn fuan yn y broses o wneud penderfyniad polisi.



Hunan-asesiad sefydliadau

- 5.4 Fel ar ddiwedd y ddwy adran flaenorol yn yr holiadur, gofynnwyd i sefydliadau wneud hunan-asesiad o lefel eu sicrwydd cydymffurfiaeth gyda'r safonau ymchwil. Fe wnaethom ni hefyd gofnodi ein hasesiad ein hunain.
- 5.5 Mae'r siart isod yn dangos y gymhariaeth rhwng asesiad y sefydliadau o'u cydymffurfiaeth â'r safonau ymchwil, â'n hasesiad ninnau. Mae'n deg dweud unwaith eto bod sefydliadau yn goramcangyfrif lefel eu cydymffurfiaeth gyda'r safonau hyn. Roedd hunan-asesiad 28% o sefydliadau yn dangos lefel sicrwydd cydymffurfiaeth 'uchel'; ond yn yr un modd â'r safonau dogfen ymgynghori, ni wnaeth ein dadansoddiad ni o'r wybodaeth ddangos bod yr un sefydliad gyda'r lefel sicrwydd cydymffurfiaeth yma.
- 5.6 Fel sydd wedi ei nodi eisoes, roedd yn anodd ar brydiau ddod i gasgliadau ar lefelau cydymffurfiaeth ar sail maint y wybodaeth gafodd ei ddarparu. O ganlyniad, bu'n rhaid i ni gofnodi 'amherthnasol' ar gyfer 47% o'r sefydliadau.



Asesiad y Comisiynydd

5.7 Gweler isod rai o'r ystadegau a gasglwyd mewn ymateb i'r holiadur. Noder mai ein hasesiad ni o lefel sicrwydd cydymffurfiaeth sydd isod, a hynny ar sail yr ymatebion a ddarparwyd gan y sefydliadau.



- 5.8 Bu'n rhaid i ni gofnodi 'amherthnasol' ar gyfer 57% o'r sefydliadau o safbwynt ein hasesiad ni o'u trefniadau ar gyfer cydymffurfio gyda'r safonau ymchwil. Roedd hynny yn bennaf oherwydd nad oedd digon o wybodaeth wedi ei gyflwyno er mwyn i ni ddod i farn.
- 5.9 Ni chofnodwyd lefel sicrwydd 'uchel' o gydymffurfiaeth ar gyfer trefniadau yr un o'r sefydliadau wnaeth ymateb. Mae'r trothwy yma yn uchel i'w gyrraedd, a theimlwyd nad oedd yr un ymateb wedi dangos y byddai'n cydymffurfio â'r safonau ymchwil ym mhob amgylchiad. Rydym yn cydnabod fodd bynnag fod hyn o bosib oherwydd nad oedd digon o wybodaeth wedi ei gyflwyno gan sefydliadau i ddangos hynny.
- 5.10 Cofnodwyd lefel sicrwydd 'isell' ar gyfer 26% o'r sefydliadau wnaeth gyfeirio at eu trefniadau o gydymffurfio gyda'r safonau ymchwil. Roedd y sefydliadau hyn wedi dangos rhyw lefel o ddealltwriaeth o'r gofynion, ond nad oedd eu trefniadau yn ddigon cadarn i brofi y byddai'n cydymffurfio'n llawn bob amser.
- 5.11 Bu'n rhaid cofnodi 'amherthnasol' ar gyfer 83% o'r ymatebion mewn ymateb i gwestiwn 14. Roedd hyn yn bennaf gan nad oedd enghreifftiau addas gan y sefydliadau i'w darparu i ni eu hystyried.
- 5.12 Cyfeiriodd rhai sefydliadau at waith ymchwil cyffredinol sydd ar waith neu sydd wedi ei gyflawni yn ddiweddar. Mae'n bwysig cofio nad yw pob darn o waith ymchwil sy'n cael ei gynnal gan sefydliad yn dod o dan ofynion y safonau yma, ac mai dim ond gwaith ymchwil sy'n cynorthwyo penderfyniad polisi sy'n berthnasol.

Arferion Da

- 5.13 Fel sydd wedi ei grybwyll eisoes, cyfyngedig oedd y wybodaeth gafodd ei ddarparu mewn ymateb i'r cwestiynau yn adran olaf yr holiadur. Serch hynny, fe wnaethom adnabod yr isod fel arfer da i'w rannu gyda sefydliadau.

Canllaw clir

- 5.14 Dangosodd sefydliad yn y sector iechyd bod arweiniad ar gael i staff wrth fynd ati i wneud gwaith ymchwil i gynorthwyo penderfyniad polisi. Mae'r arweiniad yn nodi ble i ganfod data perthnasol sy'n bodoli eisoes a sut i gasglu data o'r newydd.

Enghraifft gan sefydliad yn y sector iechyd:

Casglu tystiolaeth:

Os byddwch yn penderfynu y gallai eich penderfyniad polisi effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, ac os ydych yn casglu tystiolaeth sydd wedi'i bwriadu i lywio eich gwaith, rhaid i chi gasglu tystiolaeth i ddangos maint yr effaith hon a sut y gallwch ei llywio.

Rhaid i'r ymchwil ystyried:

- Pa effeithiau, os o gwbl (cadarnhaol neu andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- Pa effeithiau, os o gwbl (cadarnhaol neu andwyol), byddai'r penderfyniad polisi yn ei gael ar y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â'r Saesneg;
- Sut y gellid lliniaru effeithiau negyddol a gwella effeithiau positif.

Dylech geisio defnyddio data a mewnwleidiad sy'n bodoli eisoes pan fyddant ar gael ac yn berthnasol (e.e. dangosfyrddau DRIH, ymchwil flaenorol a chynlluniedig; y Wybodaeth; Arolwg Tracio, Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol, a Baromedrau). Os oes angen, gellir gwneud ymchwil newydd i gefnogi eich gwaith. Os ydych yn credu bod angen ymchwil newydd arnoch, cysylltwch â'r Hwb Data, Ymchwil a Mewnwelediad (DRIH).

Gallai enghreifftiau o gasglu tystiolaeth gynnwys:

- Ymchwil desg (e.e., erthyglau a adolygir gan gymheiriaid; adolygiadau llenyddiaeth; cyhoeddiadau rhanddeiliaid; cyfryngau)
- Casglu tystiolaeth o ymgysylltiad blaenorol â rhanddeiliaid (drwy Ymgysylltu a'r Modiwl Cudd-wybodaeth)
- Arolygon
- Ymchwil ansoddol (e.e, grwpiau ffocws; cyfweiliadau)

Casgliad

5.15 Roedd diffyg gwybodaeth mewn ymateb i'r adran ar y safonau ymchwil yn golygu nad oedd modd cynnal dadansoddiad manwl o drefniadau ac enghreifftiau o waith ymchwil sy'n cynorthwyo penderfyniadau polisi. Ar y cyfan, ni ddangosodd sefydliadau bod trefniadau cadarn mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth, ac felly mae hwn yn sicr yn faes sydd angen i sefydliadau ystyried ei gryfhau.

Atodiad 1: Sefydliadau wnaeth ymateb i'r holiadur

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Caerdydd
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Gâr
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn
Gweinidogion Cymru

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2

Archwilydd Cyffredinol Cymru & Swyddfa Archwilio Cymru
Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i Gymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Corff Adnoddau Naturiol Cymru
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Chwaraeon Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Llyfrau Cymru
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Sianel 4 Cymru
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
Uned Ddata Llywodraeth Leol - Cymru
Y Comisiwn Etholiadol
Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC)

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 4

Cyngor y Gweithlu Addysg
Gofal Cymdeithasol Cymru
Tribiwnlys Prisio Cymru

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 5

Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys
Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys
Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6

Addysg Oedolion Cymru
Gyrfa Cymru
Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg Cambria
Coleg Catholig Dewi Sant
Coleg Ceredigion
Coleg Gwent
Coleg Gŵyr Abertawe
Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig
Coleg Penybont
Coleg Sir Benfro
Coleg y Cymoedd
Grŵp Llandrillo Menai
Grŵp NPTC
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Cymru Drindod Dewi Sant
Prifysgol De Cymru
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol Wrecsam
Y Brifysgol Agored

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 7

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 8

Awdurdod Safonau Proffesiynol
Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Y Cyngor Optegol Cyffredinol
Y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol
Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

Atodiad 2: Adnoddau defnyddiol

Dogfen Gyngor Comisiynydd y Gymraeg	<u>Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</u>
Cod Ymarfer	<u>Codau ymarfer</u>
Gwefan Comisiynydd y Gymraeg	<u>Safonau Llunio Polisi</u>
Tribiwnlys y Gymraeg: Cyngor Castell-nedd Port Talbot v Comisiynydd y Gymraeg	<u>Penderfyniad y Tribiwnlys</u>
Tribiwnlys y Gymraeg: Cyngor Dinas a Sir Abertawe v Comisiynydd y Gymraeg	<u>Penderfyniad y Tribiwnlys</u>

Atodiad 3: Safonau llunio polisi

Safonau gwneud penderfyniadau polisi

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safonau dogfen ymgynghori

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safonau ymchwil

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth felly byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.